



Coleg y
Cymoedd

Swyddog Perfformiad a Data Dysgu yn Seiliedig ar Waith

Pecyn Recriwtio

Awst 2022

Croeso

Diolch am eich diddordeb yn y rôl hon. Dylech ddod o hyd i'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch yma, yn ogystal ag arweiniad ar sut i wneud cais. Fodd bynnag, os oes unrhyw beth arall yr hoffech ei wybod, cysylltwch â ni i drefnu sgwrs.

Crynodeb O'r Swydd

Bydden ni wrth ein bodd ichi ddod i'n nabod ni a'r rôl y mae diddordeb gennych ynddi. Y pethau pwysig i gychwyn...



Teitl y Swydd

Swyddog Perfformiad a
Data Dysgu yn Seiliedig
ar Waith



Oriau Gweithio

37 awr yr wythnos



Math o Swydd

Llawr amser, Parhaol



Eich Cyflog

£22,635 - £24,321



Dyddiad Cau

16 Awst 2022



Lleoliad

Campws Ystrad Mynach
Efallai y bydd angen teithio ar draws
y campysau fel rhan o'r rôl hon



Pam Coleg y Cymoedd?

Amdanom Ni

Ffurfiwyd Coleg y Cymoedd yn 2013. Mae dros 10,000 o ddysgwyr yn astudio yng Ngholeg y Cymoedd bob blwyddyn ac mae gennym gampysau yn Aberdâr, Nantgarw, Rhondda ac Ystrad Mynach.

Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o gyrsiau Llawn Amser a Rhan Amser o gyrsiau Lefel Mynediad i rai Lefel Gradd mewn dros 15 o feysydd y cwricwlwm.

Gan weithio mewn partneriaeth gyda thros 800 o gyflogwyr, mae tîm Gwasanaethau Busnes y Coleg yn cynnig amrediad eang o Brentisiaethau a pheccynnau Hyfforddiant Masnachol Pwrpasol.

Buddsoddodd y coleg yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diweddar yn cynnwys adeilad Campws Nantgarw (campws gwerth £40 miliwn), campws Aberdâr (campws gwerth £22 miliwn), a Chyfleusterau heb eu hail ym maes Hyfforddi Gwaith Rheilffordd a Thrin Moduron.

Ein Datganiad Cenhadaeth

'Eich llwyddiant yn y dyfodol yw'n cenhadaeth'

Ein Gwerthoedd

- > Mae ein ffocws ar y dysgwyr.
- > Rydyn ni'n ymdrechu am berfformiad uchel.
- > Rydyn ni'n gwerthfawrogi pawb ac yn buddsoddi ynddyn nhw.
- > Rydyn ni'n ceisio gwelliant parhaus.
- > Rydyn ni'n uchelgeisiol, rydyn ni'n gwrando a chydweithredu.
- > Rydyn ni'n datblygu partneriaethau cadarn ac effeithiol.

Ein Gweledigaeth

I ddysgwyr, staff, busnes a chymunedau ein cydnabod yn goleg rhagorol.

Rydyn ni'n annog ein dysgwyr, staff a'n rhanddeiliaid allanol i anelu'n uchel ac i fod yn falch o gael dweud bod astudio yng Ngholeg y Cymoedd wedi helpu i ysbrydoli ein dysgwyr ac i drawsnewid eu bywydau.

Y Manteision

Cyflog



Rydyn ni'n ymfalchïo ein bod yn cynnig cyflog cystadleuol yn y sector addysg bellach.

Datblygiad



Mae eich datblygiad yn bwysig inni. Rydyn ni'n cynnig cyfleoedd rhagorol ar gyfer datblygiad gyrfaol a phersonol. Hefyd, rydyn ni'n cynnig dysgu am ddim ichi ar gyrsiau a ariennir gan y coleg a hyd yn oed y cyfle ichi ddysgu Cymraeg! Da iawn.

Eich Iechyd



Efallai na fyddwch ei angen byth, ond does neb yn gwybod yr hyn sydd rownd y gornel. Rydyn ni'n cynnig Rhaglen Cymorth Cyflogai ynghyd â Darpariaeth gwych o ran Iechyd Galwedigaethol.

Y Tymor Hirach:



O gychwyn gyda ni, gallwn eich cofrestru ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

Cadw'n Ffit



Mae ffitrwydd corfforol a meddyliol yn bwysig, ac felly rydyn ni'n cynnig y defnydd o gampfa Nantgarw ac Ystrad Mynach am ddim yn ogystal â disgownt ar aelodaeth o gyfleusterau hamdden. Os nad ydych am ddefnyddio campfa, rydyn ni'n cynnig Cynllun Seiclo i'r Gwaith.

Cymryd Seibiant



Rydyn ni'n deall bod angen seibiant arnoch chi weithiau. Rydyn ni'n cynnig yr hawl i Wyliau Blynyddol hael. Hefyd, mae gennym faes parcio am ddim ar gyfer yr holl staff a chynllun rhannu ceir.

Eich Bywyd Cartref



Weithiau, mae pethau'n newid ac rydyn ni am gynorthwyo hynny. Rydyn ni'n cynnig cyfres lawn o bolisiau i gynorthwyo cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd. Hefyd, rydyn ni'n cynnig Talebau Gofal Plant er mwyn sicrhau bod eich plant bach yn cael gofal da.

Swydd Ddisgrifiad

Swyddog Perfformiad a Data Dysgu yn Seiliedig ar Waith

Sicrhau bod yr holl ddogfennaeth ar gyfer dysgwyr sy'n cwblhau rhaglenni yn yr Ysgol Dysgu yn Seiliedig ar Waith wedi'i chwblhau'n gywir a bod yr wybodaeth yn cael ei mewnbynnu ar y system gwybodaeth reoli berthnasol mewn modd amserol.

Dyletswyddau Allweddol

- Hyrwyddo a chyflawni gweledigaeth, gwerthoedd ac ymddygiadau corfforaethol y Coleg.
- Hyrwyddo cysylltiadau proffesiynol positif gyda chwsmeriaid gan gynnwys staff a dysgwyr.
- Hyrwyddo cynllun strategol y Coleg a'i werthoedd a bod yn sbardun ar gyfer newid a menter.
- Bod yn falch o Goleg y Cymoedd a chwarae rhan weithredol mewn diwylliant "Un Coleg" sy'n canolbwyntio ar gryfhau'r cymoedd drwy addysg, sgiliau a hyfforddiant rhagorol.
- Bod yn rhagweithiol, yn hyblyg a gallu addasu er mwyn ymateb i anghenion y busnes a marchnadoedd sy'n newid er mwyn llwyddo.
- Gwirio bod dogfennaeth dysgu yn seiliedig ar waith yn bodloni gofynion Manyleb y Rhaglen gan gynnwys gofynion Ewropeaidd.
- Sgrinio data at ddibenion cywirdeb ac ansawdd
- Cyfathrebu gydag unigolion a sefydliadau yn fewnol ac yn allanol
- Diweddarau Systemau Gwybodaeth Reoli mewnol ac allanol er mwyn cynhyrchu adroddiadau cywir
- Cynnal systemau ffeilio cywir (electronig a phapur).
- Gwirio dogfennaeth ddechrau pob dysgwr yn yr Ysgol Dysgu yn Seiliedig ar Waith er mwyn sicrhau bod pob maes wedi'i llenwi'n gywir cyn rhoi'r wybodaeth ar y system gwybodaeth reoli briodol.
- Sicrhau bod yr holl ddogfennaeth sydd ei hangen i gefnogi dechreuad dysgwr yn ei lle cyn bwydo'r wybodaeth ar y system gwybodaeth reoli.
- Gwirio ansawdd ac archwilio tystiolaeth cymhwysedd Cronfa Gymdeithasol Ewrop i sicrhau cydymffurfiaid cytundebol.
- Gwirio dogfennaeth adolygu cynnydd dysgwyr i sicrhau ei bod wedi'i llenwi'n gywir cyn rhoi'r wybodaeth ar y system gwybodaeth reoli.
- Gwirio'r holl ddogfennaeth am ddysgwyr sydd wedi rhoi'r gorau iddi neu eu hatal dros dro i sicrhau ei bod wedi'i llenwi'n gywir cyn rhoi'r wybodaeth ar y system gwybodaeth reoli.
- Sicrhau bod Cynlluniau Dysgu Unigol yn cael eu diweddarau a'u llenwi'n gywir ar gyfer pob dysgwr yn seiliedig ar waith, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cyllid craidd, ac anfon dogfennau/copiau o Gynlluniau Dysgu Unigol dysgwyr i'r cydlynwyr perthnasol.
- Dychwelyd unrhyw ddogfennaeth anghyflawn i'r aelod perthnasol o staff gyda dyddiad cau ar gyfer ei dychwelyd, a monitro a gwirio ei bod yn cael ei dychwelyd ar amser.
- Bwydo canlyniadau cymhwyster ar y system gwybodaeth reoli.
- Rhoi gwybod i Gydlynwyr y System Gwybodaeth Reoli am ddogfennaeth sydd heb ei dychwelyd yn wythnosol.

Dyletswyddau Allweddol

- Darparu cymorth gweinyddol i'r tîm Systemau Gwybodaeth Reoli Dysgu yn Seiliedig ar Waith lle bo angen.
- Cefnogi Pennaeth yr Ysgol i ddatblygu strategaethau i gynnal hunaniaeth gref yn fewnol ac yn allanol i'r Coleg.
- Cydymffurfio â pholisiau, gweithdrefnau ac arferion Adnoddau Dynol.
- Cydymffurfio â pholisiau, gweithdrefnau ac arferion Iechyd a Diogelwch.
- Cydymffurfio â Rheoliadau a Gweithdrefnau Ariannol
- Rheoli dalennau cipio data dechrau a gadael fel y gellir cynhyrchu adroddiadau misol i sicrhau bod cyllid a phroffiliau contract yn cael eu cyflawni yn unol â'r contract Dysgu yn Seiliedig ar Waith.
- Rheoli proses hawlio Ardystio Prentisiaethau Cymru i sicrhau ardystiad prydlon ar gyfer pob cymhwyster gan gynnwys fframweithiau llawn, gan gynnwys diweddarau systemau monitro a thracio Ardystio Prentisiaethau Cymru, gwirio statws ardystiad h.y. yn yr arfaeth, gwrthodwyd
- Cynnal cysylltiadau â staff arholi a staff eraill y Coleg i sicrhau bod tystiolaeth cyrhaeddiad yn dod i law yn brydlon
- Diweddarau cronfeydd data dechrau a gadael i sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael ar gyfer archwiliadau mewnol a gwiriadau Cydlynedd y Systemau Gwybodaeth Reoli
- Sicrhau bod yr holl ddogfennaeth monitro mewnol yn cael ei llenwi ar amser, i gefnogi archwiliadau mewnol a gwiriadau perfformiad a gaiff eu cwblhau gan Gydlynedd y Systemau Gwybodaeth Reoli a'r Swyddog Archwilio a Chydymffurfiaeth

Dyletswyddau Ychwanegol

- Cydymffurfio'n weithredol â Pholisi Cyfle Cyfartal y Coleg.
- Cymryd rhan ym mhroses Rheoli Perfformiad ac Adolygu'r Coleg a chyfrannu ati.
- Mynychu cyfarfodydd staff a chyfarfodydd dysgu a datblygu yn ôl yr angen.

Gwybodaeth Bellach

Gall dyletswyddau a chyfrifoldebau'r holl swyddi newid o bryd i'w gilydd a bydd disgrifiadau swydd yn cael eu diwygio fel bo'r angen er mwyn cofnodi'r newidiadau. Gwneir hyn mewn trafodaeth lawn â deiliad y swydd.

Cydnabyddir y gall dyletswyddau a chyfrifoldebau pob swydd newid o bryd i'w gilydd a gellir diwygio disgrifiadau swydd mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd i adlewyrchu'r newidiadau hynny sy'n gymesur â'r rôl.

Manyleb Person

	Hanfodol	Dymunol	Asesiad
Cymhwyster Lefel 3 mewn Gweinyddu neu TGCh neu'n barod i weithio tuag ato		✓	Ffurflen Gais
Cymhwyster lefel 2 o leiaf mewn disgyblaeth berthnasol	✓		Ffurflen Gais
Gwybodus mewn TGCh	✓		Ffurflen Gais
Profiad o weithio mewn amgylchedd gwaith Dysgu yn Seiliedig ar Waith	✓		Ffurflen Gais a'r Cyfweiliad
Gwybodaeth helaeth am systemau MAYTAS	✓		Ffurflen Gais a'r Cyfweiliad
Addasrwydd amlwg i weithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed	✓		Ffurflen Gais a'r Cyfweiliad
Gallu trefnu, cynllunio a blaenoriaethu gwaith	✓		Ffurflen Gais
Gallu gweithio o dan bwysau a chyrraedd terfynau amser	✓		Ffurflen Gais
Gallu cysylltu â staff ar bob lefel, yn fewnol ac yn allanol, yn effeithiol	✓		Ffurflen Gais a'r Cyfweiliad
Trefnus gyda llygad graff am fanylder	✓		Ffurflen Gais a'r Cyfweiliad
Sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu ardderchog	✓		Ffurflen Gais a'r Cyfweiliad
Gallu siarad Cymraeg		✓	Ffurflen Gais
Gallu dangos dealltwriaeth gadarn o faterion yn ymwneud â chyfrinachedd	✓		Ffurflen Gais a'r Cyfweiliad
Gallu dysgu ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd a gofynion newydd	✓		Ffurflen Gais a'r Cyfweiliad
Gallu cynnal effeithiolrwydd mewn amgylchedd o dan bwysau a throsi cyfleoedd yn gynlluniau gweithredu	✓		Ffurflen Gais a'r Cyfweiliad
Ymdrin â her gyda brwdfrydedd	✓		Ffurflen Gais a'r Cyfweiliad
Arddangos agwedd broffesiynol, diplomyddiaeth a'r gallu i ddelio â sefyllfaoedd anodd	✓		Ffurflen Gais a'r Cyfweiliad
Hyblyg a chyflym wrth addasu i amgylchiadau newydd a newidiol	✓		Ffurflen Gais a'r Cyfweiliad
Bod yn gydweithiwr dibynadwy sy'n gallu ymwneud â chyfoedion a'r holl staff eraill mewn modd parchus, pwrpasol a chadarnhaol	✓		Ffurflen Gais a'r Cyfweiliad
Hyderus, brwdfrydig, egniol	✓		Ffurflen Gais a'r Cyfweiliad
Deall Cyfle Cyfartal ac yn ymrwymedig iddo	✓		Ffurflen Gais a'r Cyfweiliad
Gallu gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm	✓		Ffurflen Gais a'r Cyfweiliad

'Rwy'n mwynhau fy rôl fel Swyddog Lles a Llesiant yn fawr, ac mae cysylltu â dysgwyr, a'u hwyluso i fod yr hyn maen nhw'n dymuno bod mor werth chweil. Yng ngeiriau'r gwyh Carl Rogers, "Mae pobl fel planhigion, o gael yr amodau cywir byddant yn ffynnu" '

Carolyn Owen

Swyddog Llesiant a Lles

'Mae ymgysylltu â staff a dysgwyr a'u gweld yn datblygu i'w llawn botensial yn rhoi boddhad mawr. Mae'r rôl yn hyblyg ac nid oes dau ddiwrnod yr un fath. Mae Coleg y Cymoedd yn lle gwyh i weithio, lle rydyn ni i gyd yn cefnogi ein gilydd i sicrhau bod ein dysgwyr yn cael profiad dysgu rhagorol.'

Tracey Evans

Pennaeth Ysgol (Arlwyo, Gwallt a Harddwch)

Sut I Wneud Cais (Proses Gwneud Cais)

Beth Nesaf?

Bellach, dylech chi wybod mwy amdanom ni a'r hyn rydyn ni'n ei wneud. Hefyd, dylai fod gennych chi ddealltwriaeth dda o'r rôl hon a'r math o berson rydyn ni'n chwilio amdanynt. Os ydy hyn yn swnio fel disgrifiad ohonoch chi, yna byddem wrth ein bodd pe baech yn gwneud cais.

Yn syml, lawrlwythwch y ffurflen gais a llenwch yr holl feysydd gofynnol

Lawrlwytho Ffurflen Gais

Anfon ceisiadau wedi'u cwblhau:

✉ jobs@cymoedd.ac.uk

Cofiwch ddefnyddio'r **Fanyleb Person a'r Swydd Ddisgrifiad** i ddangos i ni pam mai chi yw'r ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd

Unwaith y bydd y cais wedi'i lenwi a'ch bod chi'n hapus, dim ond un peth sydd ar ôl i'w wneud a dyna'i drosglwyddo i ni yn y cyfeiriad e-bost uchod - Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at ei ddarllen!

Cofiwch, **nid ydym yn derbyn CV**. Os byddai'n well gennych, gallwch bob amser anfon eich cais wedi'i gwblhau at:

Pobl a Diwylliant
Coleg y Cymoedd
Campws y Rhondda
Tonypandy
CF40 2TQ

Eisiau Sgwrsio

Mae Coleg y Cymoedd yn lle unigryw a chyffrous i weithio. Efallai bod y rôl hon yn ffit perffaith i chi. Os hoffech chi sgwrsio trwy unrhyw gwestiynau neu ddod i'n hadnabod yn well, cysylltwch heddiw:

**Ceisiadau / Rhagor o
Wybodaeth:**

✉ jobs@cymoedd.ac.uk

☎ 01443 653626



INVESTORS IN PEOPLE®
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

INVESTORS IN PEOPLE®
We invest in people Gold

Rydym wedi llwyddo!
Achredwyd yn swyddogol gan Buddsoddwyr mewn Pobl.
Oherwydd rydym yn gwella gwaith.

We did it!
Officially accredited by Investors in People.
Because we make work better.

Telerau Ac Amodau

Cydraddoldeb Ac Amrywiaeth

Rydyn ni'n cydnabod manteision gweithlu amrywiol – rydyn ni'n ystyried ein hunain i fod yn gyflogwr o ddewis ac wedi ymrwymo i ddileu gwahaniaethu yn y gweithle.

Euogfarnau Troseddol

Mae sefydliadau addysg yn y DU wedi'u heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob ymgeisydd roi gwybod i'r coleg am unrhyw gollfarnau sydd wedi'u disbyddu ac sydd heb eu disbyddu ar eu ffurflen gais ac wrth lenwi ffurflen Datgelu a Gwahardd. Gall methu â darparu'r wybodaeth hon arwain at ddiswyddo. Ceir gwiriad rhestr 99 hefyd ar gyfer unrhyw un a fydd yn gweithio gyda dysgwyr neu'n dod i gysylltiad â dysgwyr, a rhaid i'r coleg ei dderbyn cyn y gall y gyflogaeth ddechrau.

Diogelu Data

Bydd unrhyw ddata amdanoch yn cael ei gadw'n ddiogel, gyda mynediad wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n delio â'ch cais yn y broses dethol. Drwy lofnodi a chyflwyno'ch ffurflen gais, rydych yn caniatáu i'ch data gael ei brosesu.

Hawl i Weithio yn y DU

Mae Adran 8 Deddf Lloches a Mewnfudo 2008 yn ei gwneud yn drosedd i gyflogwr gyflogi gweithiwr newydd y mae ei statws yn atal y gweithiwr rhag cael gwaith. Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, gofynnir i chi gyflwyno tystiolaeth dogfennol wreiddiol a chyfredol o'ch hawl i weithio yn y DU.